# Nodiadau canllaw ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais

## 1. Manylion y Cais

**Trwyddedu gorfodol**
Dan y gyfraith, rhaid i chi drwyddedu'ch eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth os oes ganddo 3 llawr neu fwy a bod 5 unigolyn neu fwy yn ei feddiannu, gan ffurfio 2 gartref neu fwy.

**Trwyddedu ychwanegol**
Er mwyn gwella safon yr eiddo a rentir yn ardal Cathays a Plasnewydd, cyflwynwyd cynllun Trwyddedu Ychwanegol ym in Cathays mis Gorffennaf 2010 a Mis Tachwedd 2014 yn Plasnewydd . Bellach, bydd angen i'r rhan fwyaf o eiddo a rentir yn yr adraloedd yma gyda mwy na 3 meddiannydd i ffurfio 2 gartref neu fwy fod wedi'u trwyddedu waeth faint o loriau sydd yno.

Os ydych yn berchen ar dŷ amlfeddiannaeth trwyddedig gallwch wneud cais am drwydded newid perchennog.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwyddedu'ch eiddo, ffoniwch Dîm Tai'r Sector Preifat ar 0300 1236696 .

**Oes gan eich Tŷ Amlfeddiannaeth Ganiatâd Cynllunio**
Mae angen caniatâd cynllunio ar bob tŷ amlfeddiannaeth â 7+ o bobl yn byw ynddo, ac o 25 Chwefror 2016 mae angen caniatâd ar bob tŷ amlfeddiannaeth waeth faint o bobl sy'n byw yno. Os oes angen eglurhad arnoch cysylltwch â rheolidatblygu@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 22330800.

## 2. Manylion deiliad arfaethedig y drwydded

Fel deiliad arfaethedig y drwydded, mae angen i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen gais hon a llofnodi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen yn cadarnhau bod y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gywir hyd y gwyddoch chi.

Os yw deiliad arfaethedig y drwydded yn gwmni, rhaid i chi nodi cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ac enwau ysgrifenyddion a chyfarwyddwyr y cwmni.

Os yw deiliad arfaethedig y drwydded yn bartneriaeth neu'n ymddiriedolaeth, rhaid i chi nodi enwau'r holl bartneriaid ac ymddiriedolwyr.

'Deiliad arfaethedig y drwydded' yw'r person y bydd ei enw ar y drwydded (os caiff ei chyflwyno). Rhaid i ddeiliad arfaethedig y drwydded fod y person mwyaf addas i ddal y drwydded ar gyfer yr eiddo, sef y person a fydd yn cael y rhent ar gyfer yr eiddo.

## 3. Manylion cyswllt ar gyfer y cais hwn

Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd deiliad arfaethedig y drwydded am wneud cais i barti/person arall fod yn bwynt cyswllt ar gyfer y cais ac o ran trefnu mynediad i archwilio'r eiddo. Os mai dyma'r achos, mae'n bwysig i fanylion cyswllt llawn gael eu nodi yn yr adran hon.

## 4. Perchenogaeth a rheolaeth ar yr eiddo i'r drwyddedu

Gall 'rhydd-ddeiliad' fod yn rhywun (neu rywrai) neu'n gwmni a gofrestrir fel perchennog ystâd rydd-ddaliadol ar y tir gyda'r teitl llwyr.

'Lesddeiliaid' yw rhywun sy'n berchen ar les hir ar ei eiddo (fel arfer am fwy na 21 mlynedd), sy'n rhoi hawl iddo feddiannu a defnyddio'r eiddo am oes y les.

Gallai 'Rhywun sy'n rhwym wrth amod o'r drwydded' fod yn unrhyw un sy'n rhan o'r gwaith o reoli a/neu gynnal a chadw'r eiddo. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar amodau'r drwydded.

## 5. Rheolwr arfaethedig yr eiddo

Os na reolir yr eiddo gan ddeiliad arfaethedig y drwydded, atebwch 'Na' i'r cwestiwn cyntaf a chwblhewch fanylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am reoli, a nodwch y manylion canlynol.

## 6. Prawf Person Addas

Cyn dyfarnu trwydded tŷ amlfeddiannaeth rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod deiliad y drwydded, y rheolwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r gwaith o reoli'r eiddo yn bobl addas. Felly nod y rhan hon o'r ffurflen yw casglu gwybodaeth am yr holl rai a enwyd yn rhannau 2, 3, 4 a 5 neu unhryw un arall sy'n gysylltiedig â'r eiddo i'n galluogi i benderfynu ar hyn. Rhaid datgan unrhyw dramgwyddo neu gollfarnau a ddarfu at ddibenion llunio'r farn hon. Ni fydd ateb 'ie' i unrhyw rai o'r cwestiynau hyn o reidrwydd yn golygu y bydd y Cyngor yn gwrthod dyfarnu trwydded, fodd bynnag mae'n cadw'r hawl i wrthod unrhyw un a enwebir fel deiliad arfaethedig y drwydded os nad ystyrir ei fod yn unigolyn addas.

DS Gall pobl gysylltiedig gynnwys rhieni, gŵr/gwraig, brodyr/chwiorydd, cefndryd, plant, partneriaid busnes, gweithwyr cynnal a chadw ac ati. Bydd y Cyngor yn ystyried cofnod troseddol unrhyw un cysylltiedig a gall wrthod dyfarnu trwydded os teimla fod rhywun cysylltiedig a chanddo gollfarnau troseddol yn debygol o gyflawni rôl bwysig yn y gwaith o weithredu a rheoli eiddo i'w drwyddedu.

## 7. Rhentu Doeth Cymru

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweinyddu'r gofynion ar gyfer cofrestru landlordiaid a thrwyddedu asiantau a landlordiaid dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod goblygiadau cyfreithiol ar landlordiaid ag eiddo yng Nghymru i gofrestru fel landlord, ac, os ydynt yn cyflawni tasgau gosod a rheoli yn yr eiddo y maen nhw'n ei rentu, mae angen iddynt gael Trwydded Landlord gan ddilyn hyfforddiant addas. Mae hefyd oblygiadau cyfreithiol ar asiantau sy'n cyflawni gwaith gosod a rheoli ar eiddo a rentir yng Nghymru ar ran landlordiaid, sy'n golygu bod angen iddynt gael Trwydded Asiant. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.rhentudoeth.llyw.cymru neu ffoniwch 03000 133344.

## 8. Gwybodaeth am Ddeiliadaeth/Tenantiaeth

At ddibenion Deddf Tai 2004 'cartref' yw:-

- Unigolyn;
- Cyplau sy'n cyd-fyw (o'r un rhyw au peidio);
- Teulu, gan gynnwys rhieni, neiniau a theidiau, plant (gan gynnwys plant maeth, llys-blant a phlant sy'n derbyn gofal), wyrion a wyresau, brodyr, chwiorydd, ewythyrod, modrybedd, neiaint, nithod neu gefndryd. Ystyrir hanner-perthnasau yn rhai llawn. Cynhwysir unrhyw staff domestig yn y cartref os ydynt yn byw mewn llety heb rent a ddarperir gan yr unigolyn y maent yn gweithio ar ei gyfer.

Felly, ystyrir 3 ffrind sy'n rhannu llety yn 3 chartref gan nad ydynt yn perthyn fel teulu. Os bydd cwpl yn rhannu â thrydydd person byddai hynny'n 2 gartref.

Os yw teulu'n rhentu eiddo mae'n gartref sengl. Pe bai gan y teulu hwnnw au-pair i ofalu am eu plant, fe'i cynhwysid yn y cartfref.

'Meddiannwr' yw rhywun sy'n meddiannu'r eiddo fel preswylfa; gall naill ai fod yn denant, lesddeiliaid, trwyddedai neu'n berson a chanddo ystâd neu fudd yn yr eiddo.

Ystyrir plant a babanod hefyd yn feddiannwyr a dylid eu cyfrif fel un unigolyn.

## 9. Manylion yr eiddo i'w drwyddedu

Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau newydd a cheisiadau am eiddo trwyddedig blaenorol lle mae newidiadau materol wedi digwydd ers i'r cais diwethaf gael ei wneud. Rhaid i ymgeiswyr nodi a yw hyn yn wir ai peidio. 'Amlfeddiannaeth' yw pan nad yw'r holl feddianwyr yn rhan o'r un teulu.

'Fflatiau hunangynhwysol' yw safleoedd ar wahân sy'n hunangynhwysol.
'Annedd wedi grwpio' yw annedd sy'n rhannu wal gydffiniol mewn clwstwr neu o amgylch cwrt.

## 10. Manylion llety

Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau newydd a cheisiadau am eiddo trwyddedig blaenorol lle mae newidiadau materol wedi digwydd ers i'r cais diwethaf gael ei wneud.

Uned osod' ar wahân yw unrhyw uned lety a rentir a osodir ar gontract tenantiaeth ar wahân neu i gartrefi ar wahân a allai fod yn un o'r canlynol ystafell/fflat un ystaff, fflat stiwdio, fflat, eiddo gosod lawr ac ati o tŷ.

Uned osod hunangynhwysol yw uned lle mae gan y meddianwyr ddefnydd llwyr o'r gegin, ystafell baddon/cawod a chyfleusterau tŷ bach. Uned nad yw'n hunangynhwysol yw un lle mae'r meddianwyr yn rhannu defnydd y gegin, ystafell baddon/cawod a/neu gyfleusterau tŷ bach. Hundai yw pan fydd y meddianwyr yn rhannu cyfleusterau, gan gynnwys ardal gysgu.

## 11. Effeithlonrwydd Gwresogi ac Ynni

Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau newydd a cheisiadau am eiddo trwyddedig blaenorol lle mae newidiadau materol wedi digwydd ers i'r cais diwethaf gael ei wneud.

## 12. Nwy a Thrydan

**Gosodiadau nwy**
Rhaid i chi gyflwyno gyda’r cais hwn gopi o’r dystysgrif/tystysgrifau diogelwch nwy o ran yr holl offer nwy yn yr eiddo. Rhaid i’r Cofnod fod o fewn dyddiad. (Rhaid i chi sicrhau y caiff yr holl offer ac ati ei brofi bob blwyddyn gan un o beirianyddion y Gofrestru  Diogelwch Nwy).

**Gosodiadau trydanol**
Gyda’r cais hwn, rhaid i chi gyflwyno copi o Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol Domestig cyfredol a boddhaol ar gyfer yr eiddo, wedi’i gwblhau gan beiriannydd trydanol cymwys.  Rhaid i’r dystysgrif fod o fewn y dyddiad a nodir (uchafswm o 5 mlynedd) ac ni dderbynnir tystysgrifau â diffygion cod 1 neu god 2.

## 13. Mesurau diogelwch tân

Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau newydd a cheisiadau am eiddo trwyddedig blaenorol lle mae newidiadau materol wedi digwydd ers i'r cais diwethaf gael ei wneud.

Dylai fod gan bob tŷ amlfeddiannaeth lwybr dianc os bydd tân a mesurau diogelwch tân digonol a all gynnwys larymau tân, synwyryddion mwg a gwres, goleuadau argyfwng, diffoddwyr tân a blancedi tân. Rhaid eu cynnal a’u cadw i safon dda a digonol o ran nifer y preswylwyr yn yr eiddo a maint yr eiddo.

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno copïau o Asesiad Risg Diogelwch Tân os cwmpesir yr eiddo gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Gallai hyn gynnwys fflatiau a fflatiau un ystafell pwrpasol, llety pwrpasol i fyfyrwyr (gan gynnwys pan fo landlordiaid gwahanol yn y bloc yn berchen ar aneddiadau gwahanol). Efallai bydd yn rhaid i chi hefyd gyflwyno Asesiad Risg Diogelwch Tân os ystyrir hynny’n briodol ar ôl i swyddog ymweld â’ch eiddo a chyflawni arolygiad trwyddedu llawn.

Yn Rhan 13 o’r ffurflen rhaid i chi roi gwybodaeth am y darpariaethau diogelwch tân yn yr eiddo y mae’n rhaid ei drwyddedu. Yn eu plith mae systemau canfod tân a goleuadau mewn argyfwng a mesurau diogelwch tân eraill fel drysau tân, modd i ddianc (h.y. grisiau, landins ac ati). Ticiwch y blychau priodol ar y ffurflen i nodi pa fesurau diogelwch tân sydd yn yr eiddo.

Dylunnir ‘system goleuadau mewn argyfwng’ i oleuo’r llwybr dianc yn awtomatig os bydd y cyflenwad i’r goleuadau artiffisial arferol yn methu.

Rhaid i ‘offer diogelwch tân’ fel diffoddwyr a blancedi tân, lle y’u darperir, gael eu profi’n achlysurol a rhaid darparu’r math cywir o ddiffoddwr.

Noda Rheoliadau Diwygio Llenni a Deunyddiau (Diogelwch Tân) 1993 lefelau ymwrthedd i dân ar gyfer dodrefn, llenni a deunyddiau a chynhyrchion eraill gyda llenni neu ddeunyddiau Domestig eraill. Rhaid bod ganddynt lenwad gwrth-dân a rhaid iddynt basio prawf ymwrthedd sigarét a rhaid i orchuddiau parhaol basio prawf ymwrthedd i fatsys. Disgwylir i landlordiaid sy’n gosod eiddo preswyl sicrhau bod unrhyw ddodrefn meddal yn cydymffurfio â’r rheoliadau hyn.

## 13. Mesurau diogelwch tân (parhad)

Mae 'dodrefn wedi'i glustogi' a gwmpesir gan y rheoliad uchod yn cynnwys; gwelyau, pennau gwely, matresi, gwelyau-soffa; dodrefn meithrinfa; dodrefn gardd y gellir ei ddefnyddio y tu mewn, dodrefn mewn carafannau newydd, clustogau bach, padiau a chlustogau sedd a gorchuddion ymestyn i ddodrefn. Dylech chwilio am ddodrefn sydd wedi'i labelu'n gywir fel rhan sy'n bodloni gofynion y rheoliadau.

## 14. Rheoli'r eiddo i'w drwyddedu

Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau newydd a cheisiadau am eiddo trwyddedig blaenorol lle mae newidiadau materol wedi digwydd ers i'r cais diwethaf gael ei wneud.

## 15. Safleoedd eraill i'w trwyddedu dan Ddeddf Tai 2004

Mae'r adran hon yn gymwys i bob cais.

## 16. Rhoi gwybod i bobl am y cais am drwydded

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau Rhan 16 drwy ddefnyddio'r lle a ddarperir i restru enwau, cyfeiriadau a disgrifiadau (e.e. lesddeiliad, morgeisai ac ati). pawb y mae angen iddynt wybod bod cais am drwydded Tai Amlfeddiannaeth wedi'i wneud. Y bobl sydd angen gwybod amdano yw:-Unrhyw berchennog ar yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad chi yw hwnnw) h.y. y rhydd-ddeiliad ac unrhyw brif lesddeiliaid sy'n hysbys i chi.

- Unrhyw ddarparwr morgais ar gyfer yr eiddo i'w drwyddedu.
- Unrhyw un arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hirdymor ar yr eiddo neu unrhyw ran ohono (gan gynnwys unrhyw fflat) sy'n hysbys i chi heblaw am denant statudol neu denant arall y mae ei les neu denantiaeth am lai na 3 blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).
- Deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi yw hwnnw).
- Asiant rheoli arfaethedig (os oes un) (os nad chi yw hwnnw).
- Unrhyw un a gytunodd i fod yn rhwym wrth unrhyw amodau mewn trwydded os y'i dyfernir.

## Rhestr Wirio

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno'r holl ddogfennau gofynnol a restrir yn y rhestr wirio ar flaen y ffurflen gais hon. Os na fyddwch yn cyflwyno'r dogfennau hyn gyda'r ffurflen wedi'i chwblhau, bydd y ffurflen gais yn annilys ac ni chaiff ei phrosesu.

- **Ffi briodol** (gweler yr adran ganlynol ar ffioedd a dulliau talu)
- **Llun clir ar ffurf pasbort o ddeiliad y drwydded arfaethedig.** If submitting multiple applications, you need only submit one photo.
- **Cofnod Diogelwch Nwy Landlordiaid -** Copi o Gofnod(ion) Diogelwch Nwy cyfredol ar gyfer yr holl offer nwy yn yr eiddo. Rhaid i'r Cofnod fod yn gyfredol a dangos bod yr offer mewn cyflwr boddhaol. (Mae angen i chi sicrhau bod yr holl offer nwy yn cael ei brofi'n flynyddol gan beiriannydd cofrestredig Diogelwch Nwy).
- **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol Domestig –** Copi o Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol Domestig cyfredol a boddhaol ar gyfer yr eiddo, wedi'i gwblhau gan beiriannydd trydanol cymwys. Rhaid i'r dystysgrif fod o fewn y dyddiad a nodir (uchafswm o 5 mlynedd) ac ni dderbynnir tystysgrifau â diffygion cod 1 neu god 2.
- **Tystysgrif Perfformiad Ynni** – Ceisiadau trwydded Newydd yn unig. Rhaid i dystysgrifau nodi dyddiad o fewn 10 mlynedd o'r dyddiad y derbynnir y cais.

## Ffioedd

Ym mhob achos lle gwneir cais am Drwydded, mae ffi ymgeisio gychwynnol yn daladwy ar adeg y cais (gweler colofn 1 yn y tabl isod). Bydd gweddill y ffi wedyn yn daladwy yn dilyn archwiliad o'r eiddo a chyhoeddi Trwydded ddrafft, a chyn cyhoeddi'r Drwydded lawn. Bydd y ffi sy'n daladwy yn dibynnu ar y math o eiddo a nifer yr ystafelloedd, ac a ganfyddir bod yr eiddo'n cydymffurfio â safonau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth. Bydd y ffi uwch yn daladwy os nad yw'r cais yn cydymffurfio.

Pan fo newid perchnogaeth yn digwydd mewn eiddo trwyddedig sy'n cydymffurfio'n llawn, mae ffi ostyngol yn daladwy am ddyfarnu trwydded i berchennog newydd am weddill cyfnod y drwydded wrth gyflwyno cais amserol a chyflawn.

| Ffi Cais Cychwynnol | 2il daliad os yw'n cydymffurfio yn dilyn arolygiad | 2il daliad os nad yw'n cydymffurfio | Ffi Cais Cychwynnol | 2il daliad os yw'n cydymffurfio yn dilyn arolygiad |
|---|---|---|---|---|
| **Fflatiau** | | | | |
| £160 | £120 | £580 | £280 | £740 |
| Ynghyd â ffi ychwanegol fesul fflat | | | | |
| **Fflat bach hyd at 2 ystafell wely fesul fflat** | | | | |
| | +£40 y fflat | +£70 y fflat | | |
| **Fflat fawr – 3 ystafell wely neu fwy** | | | | |
| | +£50 y fflat | +£90 y fflat | | |
| **Tŷ Amlfeddiannaeth a Rennir neu fflat sengl hyd at 4 ystafell wely** | | | | |
| £160 | £230 | £650 | £390 | £810 |
| **Tŷ Amlfeddiannaeth a Rennir neu fflat sengl (5 i 9 ystafell wely)** | | | | |
| £160 | £250 | £700 | £410 | £860 |
| **Tŷ Amlfeddiannaeth a Rennir neu fflat sengl (10-15 ystafell wely)** | | | | |
| £160 | £280 | £750 | £440 | £910 |
| **Tŷ Amlfeddiannaeth a Rennir neu fflat sengl (15+ ystafell wely)** | | | | |
| £160 | £300 | £800 | £460 | £960 |
| **Perchennog newydd ar eiddo sy'n cydymffurfio a chais (Telerau ac amodau'r drwydded bresennol)** | | | | |
| £40 | £70 | n/a | £110 | n/a |
| Neu daliad unigol o £100 gyda'r cais | | | | |

Wrth benderfynu a yw cais yn cydymffurfio, bydd y canlynol yn berthnasol:-

- Nid yw'r gwaith a oedd yn ofynnol yn flaenorol fel amod trwydded yn yr eiddo dan sylw wedi'i gwblhau;
- Ceir tystiolaeth o hanes o gamau gorfodi ffurfiol a/neu beidio â chydymffurfio â chamau anffurfiol yn yr eiddo dan sylw yn ystod y cyfnod trwyddedu 5 mlynedd blaenorol;
- Wrth archwilio, nid yw'r eiddo dan sylw yn cydymffurfio â'r safonau trwyddedu gofynnol gan gynnwys amwynderau, diogelwch tân a rheoliadau rheoli. (Caiff mân eitemau cynnal a chadw eu heithrio);
- Wrth archwilio, canfyddir bod gan yr eiddo dan sylw beryglon categori 1 neu beryglon categori 2 sylweddol y mae angen gweithredu arnynt;
- Cyflwyno cais adnewyddu yn hwyr ar ôl i'r drwydded flaenorol ddod i ben. (Eithriad yn achos oedi wrth adnewyddu cynllun trwydded tai amlfeddiannaeth ychwanegol);
- Cyflwyno cais annilys lle mae angen cymryd camau gorfodi gan swyddogion i sicrhau cais dilys.

## Dulliau Talu

Rydym yn derbyn y dulliau talu canlynol:-

- **Cerdyn debyd** (dros y ffôn yn unig – Ffôn 029 20871261/029 20871856)
- **Siec** (yn daladwy i 'Cyngor Caerdydd')
- **Trosglwyddiad Banc (Rhaid** i daliadau a wneir drwy'r dull hwn gynnwys y cyfeirnod isod)
  - Cod didoli 52-21-06
  - Rhif Cyfrif 20408838
  - Banc Nat West, 96 Heol-y-Frenhines, Caerdydd CF10 2GR
  **-** Cyfeirnod **– Rhaid** defnyddio'r cyfeirnod canlynol .
  72207, ac yna'r cod perthnasol isod sy'n ymwneud â'r drwydded y gwnaed cais amdani, wedi ei ddilyn gan rif y tŷ a'r 3 llythyren gyntaf o gyfeiriad yr eiddo i'w drwyddedu.

  **Er enghraifft** os ydych yn gwneud cais am drwydded o dan Gynllun Trwydded Ychwanegol Cathays ar gyfer eiddo yn 150 Flora Street, eich cyfeirnod fyddai 72207 DM217 150FLO

  DM216 - Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Gorfodol
  DM217 - Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol Cathays
  DM218 - Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol Plasnewydd

  Rhowch wybod i ni am y cyfeirnod a'r dyddiad talu drwy e-bostio TrwyddeduTA-F@caerdydd.gov.uk fel y gallwn ddod o hyd i'r taliad.

## Hysbysiad Prosesu Data

Er mwyn cydymffurfio ag Adran 232, Deddf Tai 2004, rhaid i'r Awdurdod Lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl drwyddedau a roddir ganddynt. Rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion rhagnodedig a rhaid i gynnwys y gofrestr fod ar gael i aelodau'r cyhoedd i'w harchwilio. Rhaid i gopïau o'r gofrestr, neu rannau ohoni, gael eu rhoi i berson sy'n gofyn am hynny a gellir codi ffi resymol amdanynt.

Cyhoeddir fersiwn gryno o'r gofrestr (heb enw a chyfeiriad deiliad y drwydded a'r rheolwr) ar wefan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r Cyngor yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych data, gweler Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg (dolen - https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx